## Byseddlys Cypresaidd *Lepidozia cupressina*



**Cynefin:** creigiau asidig, bonion coed, ac ar bren sy'n pydru sydd wedi syrthio

**Ffurf twf:** yn ffurfio clustogau neu fatiau trwchus

**Nodweddion allweddol:** **1.** Gwyrdd canolig, lledwyn pan yn sych **2.** Y coesynnau wedi'u gorchuddio â dail sy'n gorgyffwrdd ac wedi'u pacio'n dynn fel nad yw'r coesyn i'w weld oddi uchod **3.** Mae pedwar neu bum llabed cul tebyg i fys ar flaen pob deilen unigol

**Rhywogaethau tebyg:** tebyg i rywogaethau *Lepidozia* eraill e.e. *L. reptans* ond mae gan y rhain ddail gyda gofod da rhyngddynt sydd ddim yn gorgyffwrdd

**Nodiadau:** prin

## Cenllys Brown *Radula aquilegia*



**Cynefin:** wynebau creigiau gwlyb llaith iawn, pur anaml ar goed, mewn ceunentydd llaith

**Ffurf twf:** yn ffurfio clytiau bach wedi'u gwasgu'n agos at y swbstrad

**Nodweddion allweddol:** **1.** Coch-frown neu frown olewydd, weithiau'n lliw copr neu wyrdd **2.** Y llabed isaf llai yn plygu i fyny o dan y llabed uchaf gan ffurfio cwdyn hirsgwar **3.** Llabedau ceugrwm yn rhoi ymddangosiad 'chwyddedig' i'r egin

**Rhywogaethau tebyg:** rhywogaethau *Radula* brown eraill ond mae'r rhain yn dueddol o fod heb yr ymddangosiad 'chwyddedig', gan edrych yn llai ac yn fwy fflat. Mae rhywogaethau *Radula* eraill yn wyrdd golau. Mae'n edrych yn debyg i rywogaethau *Frullania* ond nid oes ganddynt hwy yr ymddangosiad 'chwyddedig' chwaith

**Nodiadau:** prin

## Dueglys Pigog *Plagiochila spinulosa*




**Cynefin:** mewn matiau rhydd neu glustogau trwchus ar goed ac wynebau creigiau, yn agos at afonydd a nentydd yn aml

**Ffurf twf:** llys yr afu bach sy'n ffurfio matiau

**Nodweddion allweddol:** **1.** Lliw y poblogaethau'n wyrdd golau neu felynwyrdd pan yn wlyb, yn frownach pan yn sych **2.** Dail gyda phatrwm danheddog bras o amgylch yr ymyl isaf a'r blaen, a gyda'r ymyl uchaf yn llyfn **3.** Bôn y ddeilen yn rhedeg i lawr ar y coesyn am bellter hir

**Rhywogaethau tebyg:** *Plagiochila punctata*; yn llai yn gyffredinol a gyda bôn y dail yn rhedeg i lawr ar y coesyn am bellter byr. I'w ganfod yn tyfu ar goed yn amlach na *P. spinulosa*. Mae rhywogaethau *Plagiochila* bach eraill yn debyg hefyd

**Nodiadau:** anghyffredin

## Codlys Traphlith *Saccogyna viticulosa*



**Cynefin:** cloddiau mwsoglyd serth ac wynebau creigiau gwlyb

**Ffurf twf:** yn ffurfio clytiau ond fel rheol yn ymgripio yng nghanol bryoffytau eraill

**Nodweddion allweddol:** **1.** Dail crwn mewn parau cyferbyn a heb ddannedd ymylol **2.** Mae rhannau hŷn yr egin yn frownaidd yn aml

**Rhywogaethau tebyg:** nid oes gan unrhyw gwpanllys arall yn y cynefin yma ddail heb ddannedd mewn parau cyferbyn

**Nodiadau:** cyffredin

## Dueglys Twyllodrus *Pseudomarsupidium decipiens*



**Cynefin:** ar greigiau, pur anaml ar goed, mewn cynefinoedd cysgodol

**Ffurf twf:** yn ffurfio clustogau bach

**Nodweddion allweddol:** **1.** Gwyrdd tywyll, brownaidd pan yn sych **2.** Dail crwn ac eithaf ceugrwm gyda dau neu dri o ddannedd gyda bylchau eang ar yr ymyl **3.** Mae'r dail ifanc goleuach ar flaenau'r coesyn wedi'u gwasgu'n fertigol gyda'i gilydd yn aml

**Rhywogaethau tebyg:** tebyg i rywogaethau *Plagiochila* e.e. *P. punctata* ond mae'r lliw tywyll a'r dannedd sydd â bylchau eang rhyngddynt yn nodweddion da

**Nodiadau:** anghyffredin

## Clustlys Main *Scapania gracilis*




**Cynefin:** wynebau creigiau llaith a choed

**Ffurf twf:** yn nodweddiadol mewn clustogau trwchus blêr eu golwg, mawr yn aml (am lysiau'r afu)

**Nodweddion allweddol:** **1.** Lliw gwyrddfrown golau **2.** Dau labed amlwg iawn ar y dail, pob deilen yn ymddangos fel dwy ddeilen ar wahân **3.** Mae llabedau'r dail uchaf yn gwthio ar i fyny ac am allan, oddi wrth y coesyn **4.** Dail gyda dannedd mân o amgylch yr ymylon

**Rhywogaethau tebyg:** rhywogaethau *Scapania* eraill mewn coetiroedd e.e. mae llabedau dail *S. nemorea* wedi'u dal yn agos at ei gilydd, gan roi edrychiad mwy fflat i'r egin. Mae *S. nemorea* yn wyrddach heb yr arlliw brown ac mae ganddo gemâu brown - yn ymddangos fel dotiau brown - ar flaenau llabedau'r dail

**Nodiadau:** anghyffredin

## Plantlife ydym ni

Plantlife yw'r elusen fyd-eang sy'n gweithio i wella, gwarchod, adfer a dathlu'r planhigion gwyllt a'r ffyngau sy'n hanfodol i holl fywyd y ddaear.

Gyda dau o bob pum rhywogaeth o blanhigion mewn perygl o ddiflannu, colli bioamrywiaeth yw'r cyflymaf y bu erioed ac ni fu gwaith Plantlife erioed mor hanfodol. **Helpwch i sicrhau byd llawn planhigion gwyllt a ffyngau trwy ddod yn aelod o Plantlife heddiw.**

**Plantlife**
Brewery House
36 Milford Street, Salisbury
Wiltshire, SP1 2AP

**enquiries@plantlife.org.uk**

**plantlife.org.uk**

### Lawrlwythwch gopi digidol o'r canllaw hwn a darganfod mwy am reoli coedwigoedd glaw:

**Sganiwch y cod QR neu ymwelwch**
joinplantlife.org/temperate-rainforest-c-bryo

## Geirfa

**Gwain waelodol:** rhan isaf y ddeilen lle mae'n cydio yn y coesyn

**Deulabedog:** wedi'i rannu'n ddwy ddeilen neu segmentau

**Coden:** mae'r goden yn cynnwys y sborau ac yn eistedd ar flaen coesyn (seta)

**Crymanog:** crwm iawn ac wedi troi i un ochr

**Fflagela:** strwythur tebyg i chwip yn hongian o dan ddeilen neu goesyn

**Gemâu:** celloedd neu flagur bach o feinwe sy'n datgysylltu ac yn ffurfio unigolion newydd fel dull o atgenhedlu anrhywiol

**Llabed:** y segment mwyaf o ddeilen wedi'i rhannu

**Llabedyn:** llabed bach, y segment llai fel rheol o ddeilen fwy wedi'i rhannu

**Nerf:** y strwythur canolog tebyg i wythïen yng nghanol asen y ddeilen

**Asgellog:** gyda changhennau niferus yn ymledu ar ddwy ochr y coesyn, fel pluen

**Mae 1-asgellog** yn cyfeirio at y patrwm canghennu - 1 haen o ganghennu o'r prif goesyn

**2-asgellog** 2 haen o ganghennu

**3-asgellog** 3 haen o ganghennu

**Pletiog:** wedi crychu neu blygu

**Egin:** y prif goesyn ynghyd â'r dail

**Swbstrad:** yr arwyneb y mae'r planhigyn yn tyfu arno e.e. craig, coeden, pridd

**Manflewog:** gyda manflew

**Manflew:** gorchudd o flew mân

**Danheddog:** gyda phwyntiau, neu 'ddannedd' o amgylch ymyl y ddeilen

## Gwybodaeth Bellach

**Mosses and Liverworts of Britain and Ireland: A Field Guide.**
Ian Atherton, Samuel D. S. Bosanquet a Mark Lawley (2010).
Canllaw hawdd ei ddefnyddio i adnabod mwsoglau a chwpanllysiau yn y maes.

**Guide to Mosses and Liverworts of Woodland.**
Martin Godfrey (2014).
Canllaw hygyrch FSC i rai o'r rhywogaethau coetir mwyaf cyffredin.

**A Field Guide to Bryophytes**
Dominic Price a Clive Bealey (2022).
Canllaw cyfeillgar i ddechreuwyr sy'n rhoi sylw i 133 o rywogaethau o fwsoglau a chwpanllysiau sydd i'w gweld yn y rhan fwyaf o gynefinoedd y DU.

**www.britishbryologicalsociety.org.uk**
Gwefan y Gymdeithas Fryolegol Brydeinig sy'n hyrwyddo astudiaethau o fwsoglau a chwpanllysiau.

Cronfa Treftadaeth Heritage Fund | Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru In Partnership with Welsh Government

**Noddwr EF Brenin Charles III**

Plantlife International - Mae'r Elusen Cadwraeth Planhigion Gwyllt yn gwmni elusennol cyfyngedig trwy warant. Wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr, Rhif Elusen: 1059559. Wedi'i gofrestru yn yr Alban, Rhif Elusen: SC038951. Rhif Cwmni Cofrestredig: 3166339. Wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr.

© Plantlife Ionawr 2025

Ysgrifennwyd y canllaw hwn yn wreiddiol gan Des Callaghan ac Gordon Rothero.
Delweddau © Des Callaghan/Claire Halpin/Andy Acton/Sharon Pilkington/
Dave Lamacraft/Ian Price



Plantlife Cymru

# Mwsoglau a llysiau'r afu Coedwigoedd Glaw Cymru

## Mae'r canllaw hwn ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn adnabod rhai o fwsoglau a llysiau'r afu mwyaf amlwg coedwigoedd glaw tymherus Cymru, gyda'r nod o ddarparu'r adnoddau sydd eu hangen i adnabod rhai o'r rhywogaethau mwy cyffredin, yn ogystal â'r rhai sy'n dynodi cynefin coedwig law dymherus da.

## Beth yw coedwig law dymherus?

Mae coedwig law dymherus yn **brin yn fyd-eang**. Mae'n bodoli lle mae'r hinsawdd yn fwyn ac yn wlyb; mae'r amodau hinsoddol addas i'w cael dros **lai na 7% o arwyneb y ddaear**.

Nodweddir coedwig law dymherus yn arbennig gan **dyfiant toreithiog o gennau**, **bryoffytau**[1] **a rhedyn**, ac mae llawer ohonynt yn hynod arbenigol a dim ond, neu'n bennaf, **i'w cael mewn coedwig law dymherus**.

Ym Mhrydain, fe'i ceir **yn y gorllewin lle mae'r hinsawdd yn fwyn a gwlyb** oherwydd dylanwad Llif y Gwlff. Mae'n digwydd ledled y dirwedd fel coetir, porfa goed a choed gwasgaredig; mae'r ffordd mae pobl wedi ymwneud â'r dirwedd dros filoedd o flynyddoedd wedi siapio'r hyn sydd gennym ni heddiw, ac mae'r **hyn sy'n weddill yn bwysig yn rhyngwladol** o ran y cynefin ei hun a'r rhywogaethau mae'n eu cynnal.

Ledled Prydain mae coedwigoedd glaw yn amrywio yn ôl hinsawdd; mae coedwig law dymherus yr iseldir i'w chael yng Ngorllewin yr Alban a rhannau o Cumbria a Gogledd Cymru, gan adlewyrchu'r amodau hinsoddol gwlypach, tra bo coedwig law yr ucheldir yn fwy cyffredin. Lle mae'r amodau'n sychach ac yn fwy heulog, mae coetir cefnforol yn dod yn fwy cyffredin. Mae ein defnydd ni o'r **term 'coedwig law' fan hyn yn cwmpasu gwir goedwig law real a choetir cefnforol** gan eu bod yn aml yn digwydd ochr yn ochr â'i gilydd ar draws tirwedd y goedwig law.

## Beth yw mwsoglau a llysiau'r afu?

Mae mwsoglau a llysiau'r afu (sy'n cael eu hadnabod gyda'i gilydd fel bryoffytau, ynghyd â chornllysiau) yn rhai o'r **planhigion tir hynaf**, sydd wedi esblygu dros filiynau o flynyddoedd a sefydlu ym mhob cynefin daearol bron. Mae gan y rhan fwyaf strwythur syml, gyda phrif goesyn a changhennau wedi'u gorchuddio gan ddail. Nid oes ganddynt wreiddiau fel planhigion ond maent yn amsugno dŵr a mwynau yn uniongyrchol gan ddefnyddio strwythurau ar y coesynnau a'r dail. Mae mwsoglau a llysiau'r afu yn wahanol yn eu strwythur; mae gan fwsoglau ddail bob cam o amgylch y coesyn, ond dwy res o ddail sydd gan lysiau'r afu fel rheol, un i fyny bob ochr i'r coesyn ac maent yn tueddu i fod yn llai ac yn fwy bregus.

[1] Term cyfunol ar gyfer mwsoglau, llysiau'r afu a chornllysiau

## Pam mae mwsoglau a llysiau'r afu sy'n gysylltiedig â choedwigoedd glaw Cymru mor bwysig?

Mae maint y glaw a pha mor aml mae'n bwrw, presenoldeb nentydd ac afonydd yn rhaeadru, aer glân a'r dirwedd wyllt gyda'i chlogwyni, ei cheunentydd a'i chlogfeini o dan ganopi coed helaeth yn gwneud coedwig law dymherus gorllewin Prydain yn gynefin o bwysigrwydd rhyngwladol i fwsoglau a llysiau'r afu.

Maen nhw'n ddangosyddion ardderchog o ansawdd y cynefin ac yn chwarae rhan bwysig yn ecosystem y coetir. Mae gan y DU fwy na 1,000 o rywogaethau o fwsoglau a llysiau'r afu ac mae ein coedwig law dymherus ni'n arbennig o gyfoethog ac amrywiol; gall y safleoedd gorau gynnwys mwy na 150 o rywogaethau.

## Sut i ddefnyddio'r canllaw yma

Gwnewch yn siŵr bod gennych chi lens llaw x10, ac yn ddelfrydol x20, ac ewch allan i'r coed! Er ei fod yn gallu teimlo'n anodd ac yn heriol i ddechrau, fe welwch chi eich bod yn gallu dod yn gyfarwydd â llawer o rywogaethau yn rhyfeddol o gyflym.

**Y pethau allweddol i'w hystyried wrth geisio adnabod mwsoglau a llysiau'r afu yw:**

- eu lliw, gan roi sylw i'r arlliw arbennig o wyrdd
- siâp y dail gan gynnwys y blaen e.e. ydyn nhw'n llydan neu'n gul, yn bigfain neu'n ddi-fin?
- y nerf, yng nghanol y ddeilen
- y ffordd mae'r ddeilen yn glynu wrth y coesyn
- ble maen nhw'n tyfu e.e. ar lawr y coetir, ar bren yn pydru, ar fonion coed, boncyffion coed, creigiau ac ati.

**Mae disgrifiadau'r rhywogaethau'n manylu ar y canlynol:**

- y rhywogaethau hynny sy'n ddangosyddion cynefin coedwig law dymherus o ansawdd da (wedi'i nodi gyda ★), cadwch lygad am y rhain wrth gynnal Asesiad Cyflym o Goedwigoedd Glaw
- pa mor gyffredin yw pob rhywogaeth mewn cynefinoedd coedwig law tymherus
- eu prif gynefin
- eu harferion tyfu
- y nodweddion adnabod allweddol
- y prif rywogaethau sy'n creu dryswch.

Er bod enwau cyffredin wedi cael eu defnyddio yn y canllaw yma, dylid defnyddio enwau gwyddonol bob amser wrth gofnodi bryoffytau er mwyn osgoi amwysedd.

Cyflwynwch unrhyw gofnodion sydd gennych chi i Gymdeithas Fryolegol Prydain.

## Mwsoglau; dail bob cam o amgylch y coesyn

### Fforch-fwsogl Scott *Dicranum scottianum*



**Cynefin:** creigiau asid o dan gysgod, coed o bryd i'w gilydd
**Ffurf twf:** yn ffurfio clustogau trwchus yn aml
**Nodweddion allweddol:** **1.** Gwyrdd tywyll, gwyrdd canolig neu felynwyrdd yn achlysurol e.e. pan yn sych **2.** Dail unionsyth iawn neu ychydig yn grwm, siâp blaen gwaywffon ac yn meinhau i bwynt hir main **3.** Nerf amlwg iawn **4.** Dail heb ddannedd ar y cyfan **5.** Coden unionsyth
**Rhywogaethau tebyg:** *Dicranum fuscescens*; dail danheddog a choden grom
**Nodiadau:** anghyffredin

### Cap Gwallt Clawdd *Polytrichum formosum*




**Cynefin:** ar gloddiau pridd fel rheol, ar lawr y coetir ac o amgylch bonion coed, yn ffurfio clustogau mawr a thrwchus yn aml
**Ffurf twf:** egin cadarn unionsyth yn ffurfio twmpathau rhydd
**Nodweddion allweddol:** **1.** Egin unionsyth, heb ganghennau ac mewn poblogaethau trwchus fel rheol **2.** Dail hir, cul a phigfain **3.** Egin yn edrych fel 'brwsh potel' **4.** Gwain waelodol y ddeilen ychydig yn hirach na llydan (o'i gweld gyda lens llaw ar ôl tynnu deilen oddi ar y coesyn)
**Rhywogaethau tebyg:** *Polytrichum commune*; gwain waelodol y ddeilen yn llawer hirach na llydan ac yn llai cyffredin na *P. formosum* mewn coetir
**Nodiadau:** cyffredin

### Mwsogl Grugwydden Cyffredin *Thuidium tamariscinum*




**Cynefin:** cloddiau pridd, ar lawr y coetir ac o amgylch bonion coed
**Ffurf twf:** yn ffurfio matiau rhydd sy'n ymledu, sy'n edrych yn flêr yn aml
**Nodweddion allweddol:** **1.** Coesyn brown neu wyrdd **2.** 2 i 3 asgellog **3.** Dail y prif goesyn yn llawer mwy na'r dail ar y canghennau cyfagos **4.** Dail y prif goesyn wedi'u plethu, yn meinhau i bwynt pigfain a gyda nerf glir **5.** Coesyn wedi'i orchuddio â manflew
**Rhywogaethau tebyg:** *Thuidium delicatulum*, yn tueddu i ffurfio tyweirch byrrach a mwy trwchus, ond mae'n rhaid ei gadarnhau gyda microsgop (i'w weld yn llawer llai aml na *T. tamariscinum*)
**Nodiadau:** cyffredin iawn mewn ystod eang o gynefinoedd

### Mwsogl y Coed Pefriol *Hylocomium splendens*




**Cynefin:** cloddiau pridd, bonion coed a thros glogfeini isel
**Ffurf twf:** mewn clytiau sy'n lledaenu'n rhydd yn gyffredinol
**Nodweddion allweddol:** **1.** Coesyn coch **2.** 2 i 3 asgellog **3.** Dail heb nerf glir **4.** Dail ar y prif goesyn gyda blaenau pigfain a thonnog **5.** Dail y coesyn yn llawer mwy na dail y canghennnau
**Rhywogaethau tebyg:** *Pleurozium schreberi*, blaen di-fin i ddail y prif goesyn ac 1-asgellog
**Nodiadau:** cyffredin iawn


### Mwsogl Blewog Bach *Rhytidiadelphus loreus*




**Cynefin:** ar lawr y coetir, bonion coed, cloddiau pridd a thros glogfeini isel
**Ffurf twf:** yn ffurfio drwy ledaenu matiau blêr, rhydd, sbringlyd
**Nodweddion allweddol:** **1.** Coesyn coch **2.** Dail crwm heb nerf glir **3.** Dail llydan yn y bôn, yn meinhau i bwynt main hir **4.** Dail ar flaen y prif egin yn crymu i'r un cyfeiriad h.y. crymanog **5.** 1-asgellog
**Rhywogaethau tebyg:** *Rhytidiadelphus triquetrus*; fel arfer yn fwy gyda dail yn ymestyn allan i bob cyfeiriad gan wneud iddo edrych yn sigledig. *Rhytidiadelphus squarrosus*; y dail ym mlaen y prif egin ddim yn grymanog (yn llawer llai cyffredin fel rheol nag *R. loreus* mewn coedwig law dymherus)
**Nodiadau:** cyffredin iawn mewn amrywiaeth o gynefinoedd

## Cwpanllysiau; gyda dwy res o ddail yn gyffredinol, un i fyny bob ochr i'r coesyn

### Chwiplys Twmpathog *Bazzania trilobata*




**Cynefin:** cloddiau pridd, bonion coed, clogfeini, pren wedi pydru, ar foncyffion coed yn achlysurol
**Ffurf twf:** cytrefi trwchus, twmpathog
**Nodweddion allweddol:** **1.** Fflagela hir yn ymwthio allan o ochr isaf y coesyn (weithiau'n anodd ei weld mewn poblogaethau trwchus) **2.** Blaen y ddeilen gyda 2 i 4 (3 fel rheol) dant **3.** Egin gyda chefn a blaen llyfn, crwn ac yn edrych yn gycyllog
**Rhywogaethau tebyg:** *Bazzania tricrenata*; llai na hanner maint *B. trilobata* ac yn llawer prinnach
**Nodiadau:** cyffredin

### Cynffon Llygoden *Isothecium myosuroides*




**Cynefin:** boncyffion coed a chlogfeini
**Ffurf twf:** yn ffurfio matiau trwchus fel rheol
**Nodweddion allweddol:** **1.** Dail â nerf ganolog glir a blaen hir a phigfain **2.** Prif goesyn heb ganghennau oddi tanodd a changhennau trwchus uwch ben **3.** Gwyrdd plaen neu felynwyrdd **4.** Ffurf twf tebyg i goeden, sy'n amlwg pan fyddwch chi'n tynnu coesyn i fyny neu'n ei wahanu o'r gweddill
**Rhywogaethau tebyg:** *Isothecium holtii*; poblogaethau gyda lliw efydd neu frown fel rheol ac yn gadarnach. *Isothecium alopecuroides*; dail byr siâp ŵy gyda phig llydan yn y blaen
**Nodiadau:** cyffredin iawn mewn ystod eang o gynefinoedd

### Mwsogl y Gors Pum Rheng *Sphagnum quinquefarium*




**Cynefin:** ar dir wedi'i ddraenio'n dda fel rheol e.e. ar gloddiau
**Ffurf twf:** yn ffurfio clustogau meddal fel rheol, twmpathau neu garped dros y swbstrad
**Nodweddion allweddol:** **1.** Weithiau'n wyrdd pur ond yn aml gyda rhywfaint o liw pincfrown a brychau coch **2.** Canghennau ar hyd y prif goesyn mewn clystyrau o bump fel rheol, gyda thair yn ymledu oddi wrth y coesyn a dwy wedi'u gwasgu'n agos at y coesyn **3.** Dail ar ganghennau wedi'u trefnu mewn rhesi clir
**Rhywogaethau tebyg:** mae llawer o rywogaethau o *Sphagnum* ac maent yn anodd eu hadnabod. Bydd y nodweddion uchod, yn enwedig nifer y canghennau gyda'i gilydd ar y coesyn, yn arwydd da o'r rhywogaeth yma. Mae'r rhywogaethau *Sphagnum* eraill yn y coetir sydd ag arlliwiau pinc yn cynnwys *S. subnitens* ac *S. palustre*
**Nodiadau:** cyffredin

### Cenllys Grugwydden *Frullania tamarisci*



**Cynefin:** creigiau a choed
**Ffurf twf:** yn ffurfio clytiau sy'n lledaenu'n eang ac yn pwyso'n agos fel rheol at y swbstrad ond weithiau'n drwchus
**Nodweddion allweddol:** **1.** Brown cochlyd neu gopraidd fel rheol, weithiau'n wyrddach ar flaen yr egin **2.** Deilen siâp ŵy, gyda blaen mwy pigfain weithiau **3.** Llabedyn bach siâp helmed (hirach na llydan) ym môn y prif labed (edrychwch o'r gwaelod i fyny) **4.** Llinell o gelloedd tywyllach i fyny canol prif labed y ddeilen (gweladwy gyda lens llaw)
**Rhywogaethau tebyg:** Mae gan *F. dilatata* labedau crwn (nid pigfain), llabedynnau mwy sydd hefyd yn fwy crwn ac ar goed fel rheol. Mae *F. teneriffae* yn debyg iawn ond yn brinnach ac yn aml yn arfordirol. Nid oes gan y naill rywogaeth na'r llall linell o gelloedd tywyllach yng nghanol y prif labed
**Nodiadau:** cyffredin